# BAROD I DDARLLEN:

## Cau'r bwlch mewn sgiliau iaith cynnar er mwyn i bob plentyn yng Nghymru allu darllen yn dda.

### PAPUR BRIFFIO POLISI

Mae gallu darllen yn dda yn hanfodol i ragolygon plentyn yn yr ysgol ac mewn bywyd. Ond eto mae un ym mhob pedwar plentyn sy'n cael ei fagu mewn tlodi yng Nghymru yn gadael yr ysgol gynradd yn methu darllen yn dda, ac mae'r bwlch hwn yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn o gymorth i esbonio'r bwlch addysgol parhaus yng Nghymru sydd, bob blwyddyn, yn atal miloedd o'n plant tlotaf rhag cyflawni eu potensial.

Mae sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn gallu darllen yn dda yn rhan hanfodol o'r ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Mae pob plentyn yn haeddu cyfle cyfartal i lwyddo, waeth beth fo'u cefndir. Dyma pam y mae clymblaid ymgyrch Darllena. Datblyga. wedi gosod y nod bod pob plentyn yng Nghymru'n gallu darllen yn dda yn 11 oed.

### TAIR BLAENORIAETH I'R LLYWODRAETH

Mae'n hanfodol, fel cenedl, ein bod yn gwneud mwy i sicrhau bod plant yn datblygu sgiliau iaith cryf erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Mae'r effaith ar gyfleoedd dysgu a bywyd plant sydd mewn perygl o fynd ar ei hôl hi, ac ar anghydraddoldeb addysgol yng Nghymru, yn debygol o fod yn sylweddol.

Mae ein ffocws ar beth arall y gellir ei wneud i gefnogi plant sy'n byw mewn tlodi, am eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o fynd ar ei hôl hi o ran iaith gynnar ac yn llai tebygol o ddal i fyny. Ond er mwyn cyflawni nodau ein hymgyrch, bydd angen cymorth i bob plentyn sydd ei angen, waeth beth fo'u cefndir. Bydd hyn yn gofyn am gymysgedd o wasanaethau cyffredinol sy'n cefnogi pob plentyn, a chymorth ychwanegol i'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fynd ar ei hôl hi.

Gwyddom nad yw hyn yn rhywbeth y gall polisïau a rhaglenni'r llywodraeth yn unig ei unioni. Mae ymgyrch Darllena. Datblyga yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu ymgyrch newid mewn ymddygiad sylweddol sy'n ceisio grymuso rhieni i ddeall yr hyn y gallant ei wneud.

DARLLENA DATBLYGA

Rydym wedi nodi tri maes blaenoriaeth i lywodraeth Cymru eu hystyried, wedi eu dylunio i helpu rhieni a gweithwyr proffesiynol i wneud mwy hyd yn oed i gefnogi'r plant ifancaf, yn arbennig y rheiny sy'n byw mewn tlodi:

### 1. BUDDSODDI YMHELLACH YN ANSAWDD GWEITHLU ADDYSG GYNNAR

a) Sicrhau bod staff a rhieni ym mhob lleoliad y blynyddoedd cynnar yn cael mynediad i o leiaf un aelod o staff â chymhwyster lefel gradd, ag arbenigedd yn natblygiad iaith cynnar, erbyn 2020.

b) Mabwysiadu dull cadarn, systematig a chyson o asesu'r galw am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Dylid defnyddio'r wybodaeth yma i sicrhau cyflenwad digonol o ddarpariaeth i fodloni galw gan rieni. Dylai'r dull systematig hwn gynnwys asesu a oes digon o staff â'r sgiliau Cymraeg gofynnol i fodloni anghenion teuluoedd.

### 2. CRYFHAU'R CYMORTH AR GYFER RHIENI

a) Sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol i gefnogi rhieni gyda datblygiad iaith cynnar eu plant, yn arbennig y rhieni hynny sy'n byw mewn tlodi. Gellir cyflawni hyn trwy sefydlu fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant sydd yn cynnwys elfennau craidd yn cwmpasu datblygiad iaith cynnar a chefnogi rhieni.

b) Asesu faint o blant sy'n byw mewn tlodi ond y tu hwnt i ardaloedd Dechrau'n Deg. Yna ymrwymo i weithredoedd i sicrhau bod y plant hyn yn gallu cael mynediad i'r cymorth o ansawdd sydd ei angen arnynt ar gyfer lleferydd a datblygiad iaith cynnar da.

### 3. 1.ARWEINYDDIAETH GREF AC UCHELGEISIOL AR GYFER PLANT

a) Penodi Gweinidog Plant i ddarparu arweinyddiaeth gref a sicrhau bod holl blant Cymru'n gallu cyflawni eu llawn botensial.

## TLODI A SGILIAU IAITH PLANT IFANC

Mae dysgu darllen yn dda yn dechrau'n gynnar ym mywyd plentyn, ac mae sgiliau iaith cynnar da yn garreg gamu hanfodol. Os nad yw plant yn dysgu deall geiriau, siarad a gwrando yn gynnar, byddant yn cael anhawster yn dysgu darllen yn dda pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae ymgyrch Darllena. Datblyga. felly wedi gosod nod interim i bob plentyn yng Nghymru gael sgiliau iaith da erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Yng Nghymru, rydym yn disgwyl gallu mesur sgiliau iaith plant yn dair oed wrth ddechrau'r cyfnod sylfaen o fis Medi 2015.


Mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad Barod i Ddarllen yn esbonio pam y mae sgiliau iaith cynnar plant mor bwysig ar gyfer dysgu darllen. Rydym hefyd yn dangos mai plant sy'n byw mewn tlodi sydd â'r perygl mwyaf o fynd ar ei hôl hi. Dengys y dystiolaeth, heb fwy o ymrwymiad i ddatblygiad iaith cynnar plant, yn arbennig y plant tlotaf, ni fyddwn byth yn cyflawni ein nod o gael pob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn gallu darllen yn dda. Mae hybu sgiliau iaith cynnar plant yn hanfodol i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad a gwella cyfleoedd bywyd ein plant tlotaf.

Mae gan Gymru nod uchelgeisiol sy'n cael ei groesawu ar gyfer ei phlant: i gael dechrau teg i fywyd. Ceir cefnogaeth wleidyddol eang i weithredu'n gynnar i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anfantais gymdeithasol ac addysgol, cyn iddynt gael effaith ddramatig ar gyfleoedd bywyd plant. Mae cynnydd yn cael ei wneud trwy weithredu cadarn a buddsoddiad, ond nid yw'n digwydd yn ddigon cyflym.  Mae heriau sylweddol yn parhau. Mae angen mwy o ffocws ar sgiliau iaith cynnar sy'n cyrraedd pob plentyn, yn arbennig y rheiny mewn tlodi.

Erbyn pump oed, dylai'r rhan fwyaf o blant allu siarad mewn brawddegau llawn a defnyddio'r rhan fwyaf o'r geiriau bob dydd y mae oedolyn yn eu defnyddio. Dylent fod yn gofyn llawer o gwestiynau 'pam?' er mwyn deall y byd o'u hamgylch. Dylent allu siarad yn hyderus am y gorffennol a'r dyfodol. Mae gan isafswm o blant anabledd neu nam sy'n golygu na fyddant byth yn datblygu'r sgiliau iaith a ddisgwylir o'u hoed, ond gall y rhan fwyaf o blant wneud hynny gyda'r cymorth cywir.

Ond eto yng Nghymru, mae bwlch ystyfnig yn parhau rhwng sgiliau iaith plant tlawd a'u cyfoedion

FFIGUR 1 PLANT PUMP OED YNG NGHYMRU ISLAW LEFEL GYFARTALOG GEIRFA, YN ÔL PROFIAD O DLODI




Ffynhonnell: Astudiaeth Carfan y Mileniwm

mwy cefnog. Dengys ein dadansoddiad newydd o ddata Carfan y Mileniwm (MCS) ar gyfer Cymru fod plant sy'n byw mewn tlodi parhaus ddwywaith yn fwy tebygol o gael sgôr islaw'r cyfartaledd ar gyfer datblygiad iaith yn bump oed.

## PAM Y MAE DATBLYGIAD IAITH CYNNAR YN HANFODOL I DDYSGU DARLLEN.

Mae gallu ieithyddol plant yn effeithio ar ddysgu darllen mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gall plant sydd ag anawsterau 'ffonolegol' (anhawster yn adnabod synau geiriau) gael trafferth yn 'datgodio' a deall geiriau wedi eu hargraffu (Catts 1989). Mae'n ymddangos bod plant ifanc sy'n cael anhawster yn deall y ffyrdd y mae brawddegau wedi eu strwythuro, ystyr geiriau neu'r defnydd cymdeithasol o iaith hefyd yn cael anhawster yn darllen (Nation & Snowling 1998). Dengys ymchwil newydd a gomisiynwyd gan ymgyrch Darllena. Datblyga. gan Sefydliad Addysg UCL fod y graddau y mae sgiliau iaith cynnar plant yn effeithio ar eu gallu yn nes ymlaen i ddarllen a'r effaith y mae tlodi'n ei gael ar eu datblygiad.


Mae dadansoddiad newydd o ddata MCS Cymru yn dangos rôl hanfodol sgiliau iaith cynnar yng ngallu plentyn i ddysgu darllen, yn arbennig ar gyfer ein plant tlotaf:

- Mae plentyn â sgiliau iaith gwan yn bump oed yn llawer llai tebygol o fod yn ddarllenwr cryf yn 11 oed na phlentyn pump oed â sgiliau darllen cryf
- Mae sgiliau iaith cynnar da yn bwysicach fyth i blant sy'n cael eu magu mewn tlodi. Mae plentyn sydd wedi profi tlodi'n barhaus ac â sgiliau iaith islaw'r cyfartaledd yn sgorio 35% yn llai mewn profion darllen yn saith oed a 22% yn llai mewn profion darllen a deall yn 11 oed na phlentyn sydd erioed wedi profi tlodi ac â sgiliau iaith uwchlaw'r cyfartaledd.

## BETH SY'N DYLANWADU AR DDATBLYGIAD IAITH PLANT IFANC

Mae gan etifeddiaeth enetig plant a gallu cynhenid rôl yn dylanwadu ar y ffordd y mae eu sgiliau iaith cynnar yn datblygu. Ond y tu hwnt i'r gwaddolion cychwynnol hyn, rydym wedi nodi pedwar set o ffactorau sy'n rhyngweithio â'i gilydd i ffurfio sgiliau iaith plant ifanc yn bump oed:

## FIGURE 2 TRANSITIONS IN ABILITY BETWEEN FIVE AND SEVEN: PERCENTAGE OF CHILDREN WITH BELOW AVERAGE READING SCORES AT AGE SEVEN BY VOCABULARY SCORE AT AGE FIVE AND EXPERIENCE OF POVERTY IN WALES




Source: Millennium Cohort Study

1. **Sgiliau iaith yn dair oed:** mae sgiliau iaith plant ym mlynyddoedd cyntaf eu bywyd yn cael effaith sylweddol ar eu sgiliau iaith yn bump oed. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gweithredu'n gynnar i gefnogi datblygiad iaith plant ifanc o'u genedigaeth.
2. **Yr hyn y mae rhieni'n ei wneud:** mae'r cwlwm rhwng rhiant a phlentyn, a'r ffordd y mae rhieni'n defnyddio iaith gartref, yn hanfodol. Mae gan rieni hefyd rôl hanfodol yn creu cyfleoedd dysgu cynnar, fel rhannu straeon, canu rhigymau, neu chwarae gemau geiriau.
3. **Tlodi:** gall tlodi roi rhieni dan straen, gwneud iddynt boeni neu fod â diffyg hyder, sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd iddynt greu llawer o gyfleoedd dysgu. Mae mwy o gymorth a gwybodaeth ar gyfer rhieni yn allweddol, yn arbennig yng nghyd-destun cyfraddau tlodi plant sy'n ystyfnig o uchel yng Nghymru.
4. **Dysgu a gofal plant cynnar:** gall dysgu a gofal plant cynnar o ansawdd uchel fod o fudd mawr, yn arbennig ar gyfer plant cyn-ysgol hŷn a'r rheiny sy'n byw mewn tlodi. Addysg y blynyddoedd cynnar sy'n cael yr effaith fwyaf ar sgiliau iaith pan gaiff ei arwain gan athro wedi ei hyfforddi neu rywun â gradd yn y blynyddoedd cynnar.

## PA GYMORTH Y MAE PLANT A THEULUOEDD YN EI GAEL AR HYN O BRYD?

Mae bod ar ei hôl hi mor gynnar mewn bywyd yn credu canlyniadau sylweddol o ran gallu plentyn i wneud cynnydd yn yr ysgol. Gall yr anfantais hon ymestyn i fod yn oedolyn. Mae gweithredu'n gynnar a chefnogi rhieni i ymgysylltu â dysgu cynnar eu plant yn allweddol i hybu sgiliau iaith plant ifanc a mynd i'r afael â thangyflawniad sydd wedi ei sefydlu o ran darllen. Mae ystod o wasanaethau ar gael i gefnogi teuluoedd yng Nghymru.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn ystyried yn benodol rôl ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, Canolfannau Plant Integredig, Dechrau'n Deg, addysg gynnar, llyfrgelloedd a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae'r dirwedd gwasanaethau i rieni gael cymorth ar gyfer datblygiad iaith cynnar eu plant yn eang, ac yn wasgaredig mewn mannau. Mae her sylweddol yn parhau i uno ymdrechion pob partner a sicrhau bod plant a rhieni sydd angen cymorth ychwanegol yn ymwneud ag iaith gynnar yn gallu cael gafael arno.


Am fwy o wybodaeth am ein galwadau neu i ganfod mwy am ein gwaith, cysylltwch â:

Rhea Stevens, Uwch Eiriolwr Polisi a Rheolwr Ymgyrchoedd - Cymru

**r.stevens@savethechildren.org.uk**

**0203 763 1187**

**Savethechildren.org.uk**

**twitter @savechildrencym**


Helpu plant i ddarllen